Rhieni dros Addysg Gymraeg
Parents for Welsh Medium Education

Ceri McEvoy
Cyfarwyddwr Datblygu
Director of Development
Rhieni dros Addysg Gymraeg
Tŷ Cymru, Greenwood Close,
Parc Busnes Porth Caerdydd
Caerdydd CF23 8RD
Ffôn **029 2073 9207**
Symudol **07912 175 403**
Ebost ceri@rhag.net

Annwyl Rieni/Warcheidwaid,

Ysgrifennaf atoch ar ran RhAG Caerdydd, sef mudiad Rhieni Dros Addysg Gymraeg, sy'n cynrychioli rhieni sy'n dewis addysg Gymraeg i'w plant yn y brifddinas.

Hoffwn eich llongyfarch ar ddewis addysg Gymraeg i'ch plentyn ym mis Medi. Mae'n bosibl nad yw eich plentyn wedi ennill lle yn yr ysgol Gymraeg a oedd yn ddewis cyntaf gennych yn ôl trefn y sir. Ond hoffwn eich hannog i barhau i ddewis addysg Gymraeg fel eich ail a thrydydd ddewis, fel na fydd eich plentyn yn colli'r hawl i dyfu'n ddinesydd cwbl ddwyieithog. Nid yw'n rhy hwyr i chi ofyn i'r sir am le mewn ysgol Gymraeg arall gyfagos. Er efallai nad yw'r ysgol Gymraeg yn lleol i chi ym mhob achos, mae'r manteision i'ch plentyn o dderbyn addysg Gymraeg yn niferus.

Mae gwefan Cyngor Caerdydd yn nodi nifer o ragoriaethau derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, dyma rai ohonynt:

- Mae'n rhoi'r gallu i blant ddod yn gwbl rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- Mae dwyieithrwydd yn sgil defnyddiol iawn yn y gweithle, a siarad Cymraeg yn sgil hanfodol neu ddymunol ar gyfer nifer cynyddol o swyddi;
- Mae'r Gymraeg yn agor drysau, yn rhoi mynediad i ddiwylliant, llenyddiaeth, cerddoriaeth, cyfryngau digidol na fyddai ar gael iddynt fel arall;
- Mae teuluoedd o bob math a chefndir yn elwa ar addysg cyfrwng Cymraeg
- Dydy 70% o'r plant sy'n derbyn addysg Gymraeg yng Nghaerdydd ddim yn siarad Cymraeg gartref, felly mae dod o gefndir di-Gymraeg yn gwbl arferol, ac mae'r cwricwlwm wedi'i lunio gyda hyn mewn sylw;
- Yn y rhan fwyaf o wledydd Ewrop, mae siarad dwy neu dair iaith yn gwbl arferol, gall un iaith atgyfnerthu'r llall;
- Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn brofiadol iawn yn cynorthwyo disgyblion a rhieni wrth wneud gwaith cartref, a rhoddir cyfarwyddiadau ar gyfer y gwaith i'r disgyblion ieuengaf, hyd nes y gall y disgyblion egluro'u gwaith. Mae cyngor a chefnogaeth ar gael i rieni drwy'r ysgol a thrwy'r wefan addysg HWB;
- Os hoffech ddysgu Cymraeg gyda'ch plentyn mae cyrsiau Cymraeg i Oedolion ar gael ar gyfer pob lefel.

Llongyfarchiadau eto ar wneud y dewis gorau dros eich plentyn, dwi'n siŵr na chewch eich siomi! Pob dymuniad da i chi a'ch teulu. Cofiwch fod modd cysylltu â RhAG os oes angen cyngor pellach arnoch am dderbyn addysg Gymraeg.

Yn gywir

Pwyllgor RhAG Caerdydd

RhAG
Rhieni dros Addysg Gymraeg
Parents for Welsh Medium Education

Ceri McEvoy
Cyfarwyddwr Datblygu
Director of Development
Rhieni dros Addysg Gymraeg
Tŷ Cymru, Greenwood Close,
Parc Busnes Porth Caerdydd
Caerdydd CF23 8RD
Ffôn **029 2073 9207**
Symudol **07912 175 403**
Ebost ceri@rhag.net

Dear Parents / Guardians,

I am writing to you on behalf of RhAG Cardiff - Parents for Welsh Medium Education - the organisation which represents parents living in the capital who want to choose Welsh-medium education for their children.

I would like to congratulate you on choosing Welsh-medium education for your child in September. It is possible that your child may not have secured a place in a Welsh-medium school that was your first choice. However I would urge you to continue with your choice of Welsh medium education as your second and third choices, so that your child will not lose the right to become a completely bilingual citizen. It is not too late for you to ask the LEA for a place in another nearby Welsh medium school. Although the nearest Welsh medium school may not be your local school in all cases, the benefits of your child receiving a Welsh medium education are numerous.

Cardiff Council's website highlights many of the advantages of receiving a Welsh-medium education, some of which are:

- It gives children the ability to become fully fluent in Welsh and English;
- Bilingualism is a very useful skill in the workplace, with the ability to speak Welsh as an essential or desirable skill now a requirement for an increasing number of jobs;
- The Welsh language opens doors, giving access to culture, literature, music, digital media that otherwise would not be available to them;
- Families from all backgrounds have benefited from choosing Welsh-medium education;
- 70% of children receiving Welsh-medium education in Cardiff do not speak Welsh at home, so coming from a non-Welsh speaking background is quite normal, and the curriculum is taught with this in mind;
- In most European countries, speaking two or three languages is completely normal, one language can reinforce the other;
- Welsh-medium schools are very experienced in assisting pupils and parents with homework, and instructions for the work is given to the youngest pupils, until the pupils can explain their own work. Advice and support is available to parents throughout the school and through the HWB education website;
- If you would like to learn Welsh with your child, there are Welsh for Adults courses available for each level.

Congratulations again on making the best choice for your child, I'm sure you won't be disappointed! We wish you and your family the very best. Remember that you can contact RhAG if you need further advice about receiving Welsh medium education.

Yours sincerely,

Cardiff RhAG Committee